

CYNGOR BRO MORGANNWG

GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM
DDYFODOL DISGLEIRIACH

CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022-2023



Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg

RHAGAIR

Mae'r flwyddyn ddiwethaf unwaith eto wedi bod yn llawn heriau digynsail wrth i ni ddelio ag effeithiau'r pandemig ar ein hiechyd, ar yr economi ac ar gynifer o feysydd bywyd. Wrth i ni edrych ymlaen at 2022-23, rwy'n fwy optimistaidd am y dyfodol ac am ein gallu i addasu ac i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.

Wrth ddatblygu'r cynllun cyflawni hwn ar gyfer 2022-23, rwy'n ymwybodol, er bod rhai agweddau ar ein bywydau wedi dychwelyd i ryw faint o normalrwydd, bod rhaid i ni fod yn barod i newid ac aros yn wydn, a chydabod na fydd rhai pethau byth yr un fath eto efallai. Mae profiadau ac anghenion pobl yn amrywiol a dim ond drwy gydweithio y gallwn fodloni anghenion amrywiol a chymhleth unigolion a chymunedau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'n gwirfoddolwyr, ein grwpiau cymunedol, ein partneriaid a staff y Cyngor sydd wedi parhau i wneud mwy na'r gofyn ac sydd wedi dangos llawer o wydnwch, cryfder ac arloesedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er gwaethaf yr heriau niferus, mae'r Cyngor wedi parhau i fwrw ymlaen â'r amcanion yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-25 ac wrth ddatblygu ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022-23. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi sicrhau bod ein gwasanaethau a'n prosiectau'n parhau i gael eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys gofal cymdeithasol, addysg a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gwasanaethau priffyrdd a rheoli gwastraff, tai, hamdden a gwasanaethau chwarae, ein llyfrgelloedd, ein parciau a'n hardaloedd gwyliau, gwasanaethau budd-daliadau a chynghori a diogelwch cymunedol a diogelu'r cyhoedd.

“ Mae'n rhaid i'r Cyngor fel y rhan fwyaf o sefydliadau barhau i addasu'r ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau, gan sicrhau ei fod yn bodloni anghenion trigolion yn y ffordd orau y gall. Drwy ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu, gan ystyried ein gwybodaeth am berfformiad a dadansoddi data ac ymchwil eraill rydym yn parhau i wneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl Bro Morgannwg. ”

Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.

A copy of the Plan is available in English.

Mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau'n newid, ein Strategaeth Adfer a'n Rhaglen Drawsnewid ac er ein bod yn dal i ddelio â'r pandemig rydym hefyd yn cymryd camau i addasu ac adfer. Rydym yn parhau'n uchelgeisiol yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn parhau i ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth 'cymunedau cryf â dyfodol disglair'. Bydd y gweithgareddau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein pedwar Amcan Lles, ond maent hefyd yn sicrhau ein bod yn datblygu rhaglen integredig o weithgareddau a fydd yn:

- Cyflawni ein hymrwymadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i ymateb i'r argyfwng natur.
- Cynyddu capasiti o fewn ein cymunedau gan sicrhau bod ganddynt lais cryfach a'u bod yn gallu dylanwadu ar wasanaethau a gweithgareddau yn y Fro a'u siapiro.
- Bodloni anghenion y rheiny sy'n profi caledi, er enghraifft anawsterau ariannol, angen am dai neu anawsterau cael cyflogaeth addas.
- Bodloni anghenion ein trigolion mwy agored i niwed, gan sicrhau bod pobl o bob oed yn gallu cael gofal a chymorth a gwybodaeth i'w cadw'n ddiogel ac yn iach gan roi sylw dyledus i'w lles corfforol a meddyliol.
- Trawsnewid sut yr ydym yn gweithio i sicrhau bod y sefydliad yn ymateb i anghenion newidiol ein cymunedau, ein staff a rhanddeiliaid eraill.
- Buddsoddi yn ein hysgolion a'n tai a sicrhau bod gennym y seilwaith cywir yn y Fro i gefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Hoffwn dynnu sylw hefyd at **Prosiect Sero** a lanswyd yn 2021. Dyma ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae ein Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd yn nodi amrywiaeth o gamau y byddwn yn eu cymryd o ran trafniadaeth, ynni, ein hadeiladau, bwyd, tir, gwastraff a chaffael. Wrth wraidd Prosiect Sero mae'r angen am weithredu ar y cyd, am newid mewn ymddygiad ac am gydnabyddiaeth mai dim ond os ydym ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd y byddwn yn llwyddo. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd y gwaith yr ydym yn ei wneud i adeiladu'r ysgol garbon sero gyntaf yng Nghymru, i wella ein stoc tai ac i ddiogelu a gwella manau gwyrdd, bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol. Mae'n gynllun uchelgeisiol ac yn un yr ydym wedi ymrwymo i'w gyflawni. Adlewyrchir ein hymrwymadau Prosiect Sero yn y cynllun cyflawni hwn ar gyfer 2022-23 a bydd y gwaith hwn ynghyd â ffocws cynyddol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac ymgysylltu â'r gymuned yn sail i'r hyn a wnawn yn 2022-23.

Neil Moore

Neil Moore
Arweinydd y Cyngor

CYFLWYNIAD

Dyma'r trydydd Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2020-2025 y Cyngor, *Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach*.

Mae'r ymrwymiadau a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol yn rhai hirdymor a bob blwyddyn rydym yn nodi mewn CCB y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymiadau hynny. Mae hyn yn helpu i ddangos ein cynnydd a'n ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2022-23.

Bydd y camau y byddwn yn eu cymryd dros y flwyddyn i ddod yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein pedwar Amcan Lles a'n gweledigaeth Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair. Mae ein cynlluniau wedi'u siapio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gallwch ddarllen mwy am hyn yn y *Cynllun Corfforaethol*. Mae'r Amcanion hefyd yn creu'r fframwaith i ddangos sut y byddwn yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn adrodd ar ein cynnydd yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.



Amcanion Lles

Ein pedwar Amcan Lles yw:

- **Gweithio gyda, a thros ein cymunedau**
- **Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy**
- **Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned**
- **Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd**

Mae'r Amcanion hyn wedi'u hadolygu ac maent yn parhau mor bwysig ag erioed o ran creu fframwaith ar gyfer ein hadferiad a hefyd ein rhaglen drawsnewid newydd.



Gweithio gyda, a thros ein cymunedau

Mae angen i ni fod yn wydn, yn arloesol ac yn ymatebol i anghenion ein cwsmeriaid. Ni allwn fod yn sefydliad diymateb ac nid ydym am fod yn sefydliad o'r fath. Mae'r gweithgareddau y byddwn yn eu gwneud i gyflawni'r Amcan hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol i ddeall anghenion amrywiol y gymuned ac i ymateb iddynt. Mae'r CCB eleni'n canolbwyntio'n fwy ar weithio gyda'r gymuned a chynnig cyfleoedd i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o siapio ein gweithgareddau. Wrth i ni edrych yn fwy optimistaidd i'r flwyddyn i ddod gallwn hefyd ystyried sut yr ydym wedi gwella ein cynnig ar-lein a newid rhai o'r ffyrdd yr ydym yn ymgysylltu â'n trigolion. Nid yw gwasanaethau a chyfarfodydd ar-lein yn addas i anghenion pawb ond i rai pobl maent yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau ac i gymryd rhan. Mae gwaith yr ydym wedi'i wneud i ddeall effaith COVID-19 a'i wneud yn rhan o Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau ac mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn golygu y byddwn yn parhau i ymdrechu i ddeall yn well y materion anghydraddoldeb a'r camau gweithredu sydd eu hangen. Wrth ddatblygu'r Amcan hwn byddwn yn ystyried anghenion a dyheadau gwahanol sydd gan bobl o bob oed ac o bob ardal y Fro. Rydym yn deall bod angen i ni fod yn gyflogwr cyfrifol i fod yn sefydliad effeithiol, bod ein staff yn un o'n hasedau mwyaf a bod angen i'n Cynghorwyr gael eu cefnogi gan dîm cryf ac ymrwymedig i gynrychioli a gwasanaethu eu cymunedau.



Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

Rydym yn cydnabod mai'r ffordd orau allan o dlodi neu anawsterau ariannol i lawer yw drwy gyflogaeth a byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i hyrwyddo twf economaidd i'r ardal. Mae'r gweithgareddau a wneir i gyflawni'r Amcan hwn yn cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu priodol i bobl o bob oedran. Byddwn yn buddsoddi yn ein hysgolion ac yn blaenoriaethu lles disgyblion, gan ganolbwyntio ar eu lles corfforol a hefyd ar eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl i gyflawni eu gorau ac i roi'r cymorth, y wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i bobl pan fyddant yn cael anawsterau, er enghraifft cyngor ar gyflogaeth, ar dai ac ar ddyledion. Bydd COVID-19 a Brexit yn parhau i gael effaith sylweddol ar yr economi a byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Byddwn hefyd yn gweithio ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd gan gydnabod bod angen ystyried trafnidiaeth, cynllunio a datblygu economaidd mewn cyd-destun lleol a rhanbarthol.



Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Mae'r Amcan hwn yn dwyn ynghyd ystod o weithgarwch i sicrhau bod cyngor, gofal a chymorth ar gael pan fydd eu hangen ar bobl, bod pobl yn teimlo'n ddiogel a'n bod yn cefnogi iechyd a lles pobl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar i wella a chynnal lles ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Byddwn yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth cryf sydd ar gael ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd yn cydnabod rôl hanfodol tai o ran lles pobl. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo dewisiadau actif ac iach drwy weithgareddau hamdden a diwylliannol ac i annog pobl i ystyried sut mae eu dewisiadau trafniadaeth yn effeithio ar eu hiechyd a'r amgylchedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ac i'w cadw'n ddiogel ac i roi cymorth i bobl o bob oed gan gydnabod yr anawsterau y mae pobl wedi'u profi'n ddiweddar ac effaith barhaus COVID-19.



Trawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio

Mae'r Rhaglen Ail-siapio yn cynnig fframwaith strategol ar gyfer yr ymrwymadau trawsnewid yn ein Cynllun Corfforaethol ac yn adlewyrchu Strategaeth Adfer o'r Coronafeirws y Cyngor. Nodwyd tri maes cyfle i fwrw ymlaen â'n rhaglen drawsnewid a chaiff y rhain eu hymgorffori yn y gweithgareddau a nodir yn y CCB. Dyma'r tri maes:

- **Cyfleoedd i weithredu ar faterion cymunedol mawr**
- **Cyfleoedd i newid sut yr ydym yn gweithio**
- **Cyfleoedd i ddefnyddio ein hadnoddau'n wahanol**

Mae'r meysydd cyfle hyn yn cynrychioli datblygiad sylweddol yn null y Cyngor o ymdrin â thrawsnewid ac yn cwmpasu ystod eang o ystyriaethau mewnol ac allanol. Mae'r Cyngor wedi gosod cyfres o flaenoriaethau strategol ar gyfer newid trawsnewidiol yn y meysydd canlynol:

■ Ail-siapio gyda'n Cymuned:

Herio ein hunain i weithio'n wahanol gyda'n cymuned a'n partneriaid gan gynnwys ysgolion a'r trydydd sector i gymryd camau gweithredu ar y cyd ac i rymuso eraill i ymateb i heriau yn y dyfodol.


■ Ail-siapio ein Gwaith:

Herio ein hunain i gofleidio ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau sy'n barod at y dyfodol.

■ Ail-siapio ein Defnydd o Adnoddau:

Herio ein hunain yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein pobl, ein hasedau a'n hadnoddau ariannol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Caiff y tri maes trawsnewid hyn eu galluogi drwy ein defnydd o dechnoleg ddigidol, gan gefnogi ein gweithlu a'n partneriaid i ddatblygu a dysgu, gan ddatblygu ein diwylliant sefydliadol ymhellach, gan gynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol a gan sicrhau bod trefniadau rheoli rhaglenni a llywodraethu cryf ar waith.



Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau ac yn darparu gwasanaethau'n effeithio ar yr amgylchedd. Mae'r amgylchedd yn un o'n hasedau pwysicaf ac mae dyletswydd arnom i'w ddiogelu a'i wella i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r gallu i ddefnyddio parciau a mannau gwyrdd yn lleol yn bwysig i bobl o bob oed ac mae cysylltiad anorfod rhwng iechyd a lles a'r amgylchedd. Credwn ei fod yn bwysig mwynhau'r ardal yr ydym yn byw ynddi a gwneud yn fawr o fyw a gweithio mewn ardal mor brydferth â'r Fro. Byddwn yn gweithredu i leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac i ddylanwadu ar eraill i'n dilyn ac ystyried sut y gallai'r hyn a wnânt effeithio ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Byddwn yn parhau i annog trigolion, ymwelwyr a busnesau i leihau gwastraff ac allyriadau carbon ac i ystyried sut maen nhw'n cyfrannu at lygredd. Rydym am i bobl allu mwynhau ein parciau, ein trefi, ein cefn gwlad a'n hardaloedd arfordirol yn ddiogel a pharchu'r ardal leol, ei thrigolion a'r bobl sy'n ymweld â hi. Rydym yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a diogelu ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol yn gyfrifoldeb ar y cyd ac mae Cynllun eleni'n canolbwyntio'n fwy ar sut y gallwn wneud y newidiadau mawr a bach i sicrhau ein bod yn gadael yr etifeddiaeth gywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



DATBLYGU'R CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL

Mae'r camau gweithredu a nodir yn CCB eleni'n adlewyrchu'r hyn y mae trigolion, partneriaid, aelodau etholedig a staff wedi'i ddweud wrthym drwy wahanol weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori drwy gydol y flwyddyn.

Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Cynllun drafft hwn yn siapio ein Cynllun terfynol ar gyfer 22-23. Mae'r camau gweithredu hefyd yn adlewyrchu ein Strategaeth Adfer, canfyddiadau gwaith ein rheoleiddwyr, y wybodaeth yn ein **Hadroddiad Blynyddol (2020/21)**, perfformiad y Cyngor yn y cyd-destun cenedlaethol, ein rhaglen drawsnewid ac **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus a thrydydd sector eraill yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae amcanion lles y Cyngor yn cyd-fynd ag **Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** a bydd y camau gweithredu a nodir yn y CCB hwn yn cyfrannu at y gwaith o'u cyflawni.

Rydym yn parhau i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ym mhob peth a wnawn ac maent yn parhau'n rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r CCB. Rydym yn hyderus y bydd y camau gweithredu a nodir yn unig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein hamcanion lles ond y byddant hefyd yn cyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol ac yn adlewyrchu ein rôl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae'r CCB yn nodi'r ymrwymadau a wnawn yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer pob un o'n Hamcanion

Lles a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2022-23 i weithio tuag at sicrhau cymunedau cryf â Dyfodol Disglair. Yn CCB eleni mae pwyslais arbennig ar gyfres o themâu trawsbynciol y bydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y Cynllun yn cyfrannu atynt:

Prosiect Sero



Cyflawni ein hymrwymadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i ymateb i'r argyfwng natur. Mae hyn yn cynnwys Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, gwelliannau i'n tai, ein hysgolion a'n hadeiladau eraill, hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a gosod manau gwefru cerbydau trydan yn ogystal â ffocws ar gaffael ac ymgysylltu â'r gymuned.

Capasiti'r gymuned



Cynyddu capasiti o fewn ein cymunedau gan sicrhau bod ganddynt lais cryfach a'u bod yn gallu dylanwadu ar wasanaethau a gweithgareddau yn y Fro a'u siapio. Bydd pob un o'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun yn canolbwyntio'n fwy ar ymgysylltu â'r gymuned. Caiff Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd newydd ei chyhoeddi a byddwn yn parhau i sgwrsio â'r gymuned am y newid

yn yr hinsawdd. Byddwn hefyd yn cymryd camau i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc ac i alluogi pobl i leisio eu barn yn fwy ar waith y Cyngor.

Caledi



Bodloni anghenion y rheiny sy'n profi caledi, er enghraifft anawsterau ariannol, angen am dai neu anawsterau cael cyflogaeth addas. Mae hyn yn cynnwys lleihau digartrefedd, cyngor ariannol, y siop un stop, gwasanaethau budd-daliadau a chyflogaeth, a phrosiectau tlodi bwyd, gan gynnwys prosiectau yn ein hysgolion i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd.

Gofal a Chymorth



Bodloni anghenion ein trigolion mwy agored i niwed, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal a chymorth a gwybodaeth i'w cadw'n ddiogel ac yn iach gan roi sylw dyledus i'w lles corfforol a meddyliol. Mae'r Cynllun yn nodi amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi pobl gan gynnwys rhoi mwy o gyfleoedd i'r henoed, diogelu ac amddiffyn y cyhoedd, gweithio gyda phlant a'u teuluoedd a mwy o integreiddio ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chanolbwyntio ar les disgyblion mewn ysgolion.

Trawsnewid



Mae hyn yn dwyn ynghyd waith gyda'r gymuned a gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ond hefyd y defnydd o'n technoleg a'n hasedau, datblygu'r gweithlu a phrosiectau arloesol a chyfleoedd i newid sut yr ydym yn gweithio ar draws yr holl wasanaethau o addysg a gofal cymdeithasol i reoli gwastraff.

Seilwaith



Buddsoddi yn ein hysgolion a'n tai a sicrhau bod gennym y seilwaith cywir yn y Fro i gefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac adeiladu cartrefi cyngor newydd yn ogystal â gweithio ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan ganolbwyntio ar gynllunio, trafndiaeth a datblygu economaidd ar draws De-ddwyrain Cymru.

Gan ddefnyddio addysg a sgiliau'n enghraifft gallwn weld sut y bydd ymrwymadau perthnasol o bob rhan o'r CCB yn cyfrannu at y themâu uchod. Bydd buddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn gwella ein seilwaith ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i Brosiect Sero. Bydd mwy o ffocws ar gyfranogiad pobl ifanc yn cefnogi gwaith i gynyddu capasiti cymunedau a bydd yn rhoi llais cryfach i bobl ifanc mewn ysgolion a'r tu allan iddynt. Bydd gwaith a wneir i gefnogi'r rheiny sy'n profi caledi a ffocws ar iechyd meddwl a lles disgyblion yn helpu i greu amgylcheddau a mecanweithiau cefnogol i bobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Drwy ein gweithgareddau trawsnewid byddwn yn croesawu ffyrdd newydd o weithio gan gynnwys y cwricwlwm newydd a byddwn yn rhoi'r cymorth ac yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). I ategu'r gweithgareddau hyn, mae'r gwaith a wnaed i wella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwarae a chwaraeon, dysgu a hamdden a gynigir drwy ein llyfrgelloedd a ffocws ar gyfleoedd adfer economaidd a chyflogaeth gan gynnwys gwaith ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sicrhau y byddwn yn rhoi mwy o gymorth a chyfleoedd gwirioneddol i bobl o bob oed i edrych ymlaen at ddyfodol disgleiriach. Mae hyn yn dangos sut mae gweithgareddau addysg a sgiliau'n torri ar draws yr holl themâu uchod a phob un o'n pedwar Amcan Lles er eu bod yn ymwneud yn bennaf ag Amcan 2. Mae'n dangos y dull integredig yr ydym yn ei fabwysiadu i gyflawni ein Hamcanion Lles ac i gyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.

Nid yw'r Amcanion na'r camau gweithredu yn nhrefn pwysigrwydd na dyddiad cyflawni. Gyda'i gilydd maent yn creu rhaglen weithredu uchelgeisiol a fydd yn sicrhau gwell gwasanaethau ac yn gwella lles lleol. Cynhelir yr holl weithgareddau yn unol â gwerthoedd y Cyngor fel y nodir isod a byddwn yn sicrhau nad yw'r camau gweithredu a gymerwn yn awr yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain ond y byddant yn creu etifeddiaeth gadarnhaol yn lle.

Uchelgais

Meddwl yn flaengar, croesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

Agored

Bod yn agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.

Cydweithio

Fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parhau amrywiaeth ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon.

Balchder

Rydyn ni'n ymfalchïo ym Mro Morgannwg, ac yn falch o wasanaethau'n cymunedau a bod yn rhan o Cyngor Bro Morgannwg.

AMCAN 1

YN 2022-23 BYDDWN YN:

GWEITHIO GYDA, A THROS EIN CYMUNEDAU

YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Gwella sut yr ydym yn cynnwys pobl eraill ac yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â nhw o ran ein gwaith a'n penderfyniadau
- Gweithio'n arloesol gan ddefnyddio technoleg, adnoddau a'n hasedau i drawsnewid ein gwasanaethau fel eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol
- Datblygu ein diwylliant cryf o wasanaeth cwsmeriaid da gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor o fod yn uchelgeisiol, yn agored, yn ynghyd ac yn falch
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a gweithio gyda'r gymuned i sicrhau ein bod yn ymatebol i anghenion amrywiol ein cwsmeriaid
- Hyrwyddo'r Gymraeg a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwr Cymraeg erbyn 2050.
- Cefnogi datblygiad a lles ein staff a chydabod eu cyfraniad at waith y Cyngor
- Sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu a chraffu ar waith a chefnogi ein haelodau etholedig i gyflawni eu rolau



“ Rydym yn gyngor modern a blaengar sy'n croesawu arloesi ac yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion ei drigolion a'i gymunedau lleol. Rydym wedi ymrwmo i fodloni anghenion y genhedlaeth hon ac i adael etifeddiaeth gadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol. ”

- 1 Defnyddio asedau a thechnoleg yn effeithiol i wella ein gwasanaethau a'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu gan gynnwys gwasanaethau ar-lein mwy ymatebol, gwelliannau i'r wefan a defnyddio system profiad cwsmeriaid digidol newydd.
- 2 Cyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n galluogi ac yn annog trigolion a rhanddeiliaid eraill i gymryd mwy o ran mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn rhan o'r gwaith o wella ein dealltwriaeth o anghenion a dyheadau cymunedau a chwsmeriaid.
- 3 Cefnogi niferoedd cynyddol o bobl ifanc i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd cyfranogiad ac i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor.
- 4 Adeiladu momentwm o ran y Sgwrs Gymunedol ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r argyfwng natur sy'n cynnwys gwahanol grwpiau o rhanddeiliaid a datblygu grŵp o genhadon gwyrdd i siapio ein cynlluniau ac i annog newid ymddygiad.
- 5 Cyflawni cam nesaf Rhaglen Newid Trawsnewidiol y Cyngor sy'n rhoi ar waith ffyrdd newydd o weithio i ymateb i anghenion cymunedol a heriau sefydliadol y presennol a'r dyfodol gan gynnwys adfer o COVID, Brexit a'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- 6 Gweithio gyda sefydliadau nid er elw preifat, gwirfoddol a chymunedol i ddarparu a siapio gwasanaethau lleol ac i annog pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau lleol.
- 7 Cyflawni blwyddyn tri Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, sicrhau statws **Dinas o Gyfleoedd i'r Henoed** i'r Fro a bwrw ymlaen â gwaith yn rhan o'r gweithredu cenedlaethol ar **hil a chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd**.
- 8 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gwella gwasanaethau'r Gymraeg drwy gyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 5 mlynedd newydd y Cyngor a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) newydd.
- 9 Gweithio mewn partneriaeth yn rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog i ennill safon aur am ein cefnogaeth i aelodau o'r lluoedd arfog, cyn-filwyr, aelodau teulu a gweddwon.
- 10 Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan gynnwys cefnogi'r broses o gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a sefydlu trefniadau newydd
- 11 Datblygu a chyflwyno rhaglen sefydlu, hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022.
- 12 Gweithredu Strategaeth Adnoddau Dynol a Rhaglen Datblygu Gweithwyr newydd gan ganolbwyntio'n benodol ar wella amrywiaeth ar draws y gweithlu, ar gynllunio i'r dyfodol ac ar les staff.

AMCAN 2

YN 2022-23 BYDDWN YN:

ATEGU DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Sicrhau bod mynediad priodol at ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, meithrin ac addysg o safon gan alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl beth bynnag fo'u hoedran
- Buddsoddi yn ein hysgolion i greu'r amgylchedd dysgu cywir i'r 21ain ganrif a chyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned ehangach
- Gweithio gydag ysgolion, teuluoedd ac eraill i wella'r gwasanaethau a'r cymorth i'r rhai sydd ag ADY
- Gweithio gydag addysg, darparwyr hyfforddiant, busnesau ac asiantaethau eraill i roi ystod o gyngor, cymorth a chyfleoedd hyfforddiant sy'n gwella sgiliau pobl a'u parodrwydd at waith
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall pobl gael gafael ar gyngor, gwybodaeth a chymorth dyledion ariannol sy'n ymwneud â thai, budd-daliadau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Cefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dysgu cymunedol gan gydnabod ystod y buddion i unigolion a'r gymuned
- Gweithio'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllunio strategol a mentrau trafniadaeth ac i hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth
- Ategu twf economaidd drwy adfywio, seilwaith gwell a chymorth i ganol trefi, twristiaeth a diwydiant



“ Rydym yn Gyngor sy'n deall pwysigrwydd poblogaeth addysgedig a medrus gan helpu pobl o bob oedran i ddatblygu a dysgu. Rydym wedi ymrwmo i annog dyheadau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau. ”

- 1 Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i baratoi ein hysgolion ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm addysg newydd yn 2022 gan gydnabod effeithiau mesurau COVID-19 ar **barhad dysgu** a **lles** dysgwyr a staff ysgol.
- 2 Gweithio ar draws ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuencid i fodloni anghenion ac i ymateb i anawsterau **iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol** plant a phobl ifanc gan gynnwys gwaith ar ddulliau sy'n seiliedig ar drawma a'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl a Lles.
- 3 Hyfforddi a chefnogi ysgolion er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'n raddol ddiwygiad ADY.
- 4 Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i gefnogi ein hysgolion i **leihau gwaharddiadau ac i wella presenoldeb** tra'n cydnabod effeithiau COVID-19.
- 5 Cyflawni gwelliannau **Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif** (Band B) gan gynnwys ehangu Ysgol Y Deri, adeilad ysgol newydd yn Sain Nicolas, cynyddu capasiti ysgolion cynradd yn y Bont-faen, cynyddu nifer yr ysgolion cynradd Cymraeg yn y Barri, datblygu Canolfan Dysgu a Lles.
- 6 Gweithio gydag eraill gan gynnwys busnesau allweddol i gefnogi **cyflogaeth** a'r gwaith o ddatblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cyflwyno mentrau fel Ysbrydoli i Weithio, Ysbrydoli i Gyflawni a Chymunedau am Waith, a chyfleoedd prentisiaeth, hyfforddiant a chyflogaeth yn y Cyngor.
- 7 Rhoi i drigolion **gyngor a chymorth a gwybodaeth** ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, dyled, tlodi tanwydd, budd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant drwy nifer o wasanaethau gan gynnwys y siop un stop, y Tîm Cyngor Ariannol a'r Tîm Budd-daliadau.
- 8 Gweithio mewn partneriaeth â **Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd**, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu strategaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer trafniadaeth, cynllunio a datblygu economaidd gan gynnwys y Cynllun Datblygu Strategol, y Cynllun Trafniadaeth Rhanbarthol, buddsoddi mewn trafniadaeth (gan gynnwys cyfnewidfeydd trafniadaeth ar gyfer Y Barri a Cogan), prosiectau mawr a thwf parhaus Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd.
- 9 Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gefnogi **adferiad a thwf economaidd y Barri** gan sicrhau amrywiaeth o gyfleusterau busnes ac addysg ac y caiff cymorth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ei ddefnyddio'n llawn.
- 10 Datblygu a gweithredu **strategaethau twf economaidd ac adfer cynaliadwy** sy'n canolbwyntio ar ein **canol trefi**, yn annog cynnig gofod busnes ac yn cefnogi busnesau lleol, mentrau cymdeithasol a thwristiaeth.
- 11 Ail-siapio arferion a pholisïau **caffael** i sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn cyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol, yn cefnogi gwaith sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac yn adeiladu ar y prosiect economi sylfaenol.

AMCAN 3

YN 2022-23 BYDDWN YN:

CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Annog pobl o bob oed i fod â ffyrdd actif ac iach o fyw sy'n hyrwyddo lles corfforol a meddyliol gwell.
- Rhoi mwy o gyfleoedd beicio a cherdded a datblygu ystod o opsiynau teithio i annog pobl i beidio â defnyddio eu ceir.
- Hyrwyddo gweithgareddau hamdden, celfyddydol a diwylliannol sy'n bodloni ystod eang o anghenion
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor
- Rhoi gofal a chymorth i blant a theluoedd mewn angen sy'n adlewyrchu eu cryfderau a'u hamgylchiadau unigol
- Rhoi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i oedolion mewn angen
- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau cymorth lles emosïynol ac iechyd meddwl amserol a phriodol
- Cyflawni ein dyletswyddau diogelu i amddiffyn pobl rhag niwed
- Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cymunedau cydlynol ac i hyrwyddo diogelwch cymunedol
- Cadw pobl yn ddiogel drwy gynllunio cadarn a gwydn at argyfyngau a gwasanaethau rheoliadol sy'n diogelu'r cyhoedd, defnyddwyr a busnesau
- Cynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o safon uchel sydd ar gael drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r angen am dai
- Rhoi cyngor a chymorth tai er mwyn atal digartrefedd.

“ Rydym yn Gyngor rhagweithiol sy'n gweithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl i sicrhau eu bod yn ddiogel gartref ac yn y gymuned ac y gallant wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn Gyngor sy'n sicrhau y caiff pobl y cyngor, y gofal a'r cymorth angenrheidiol yn ôl yr angen. ”



1 Gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i barhau i ymateb i effeithiau pandemig COVID-19 ac i adfer ohonynt.



6 Gwella seilwaith a gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus drwy roi cymorth i wasanaethau bws sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol ac uwchraddio'r seilwaith trafniadaeth gan gynnwys dyfarnu contractau gwasanaeth bws â chymorth ym mis Ebrill 2022.

11 Ailffocysu'r ffordd y caiff gofal cartref ei roi i wella llais a rheolaeth yr unigolyn dros ei drefniadau gofal drwy ehangu 'Eich Dewis'.

16 Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Bro Ddiogelach gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer cydlyniant cymdeithasol a diogelu'r gymuned a datblygu Strategaeth Bro Ddiogelach newydd ar gyfer 2023-2026.

2 Datblygu a hyrwyddo'r ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau hamdden ac addysgol sydd ar gael ar draws ein lleoliadau a'n manau awyr agored gydag uchelgais i gynnal nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus carbon niwtral.

7 Gweithredu ffyrdd newydd o weithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cefnogi ein trigolion yn effeithiol yng nghydestun yr heriau a grëwyd gan y pandemig ac ar gyfer eu hanghenion yn y dyfodol.

12 Darparu ystod o wasanaethau, cymorth a gwybodaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles ar gyfer pobl o bob oed gan ganolbwyntio'n fwy ar wasanaethau hamdden, celfyddydol a diwylliannol a'r manteision a ddaw yn eu sgîl.

17 Gweithredu'r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol.

18 Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun Adfer y Gwasanaeth Troseddau leucentid i wella canlyniadau pobl ifanc.

3 Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu chwarae a chwaraeon gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd a lles a meysydd lle bu cyfraddau cyfranogiad isel yn y gorffennol.

8 Gweithio gydag arweinwyr / partneriaid cymunedol yn Llanilltud Fawr fel cynllun peilot i adolygu a thrawsnewid yr ystod o gymorth sydd ar gael i bobl hŷn o fewn eu cymuned.

13 Gweithio'n gydgyhyrchiol gyda phlant a'u teuluoedd drwy fodol sy'n seiliedig ar gryfderau i wella canlyniadau ac i wella lles.

19 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i adeiladu tai cyngor ac ar gyfleoedd caffael gan gynnwys Cam 2 Holm View a bwrw ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu mwy na 100 o Gartrefi Cyngor newydd ledled y Fro.

4 Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac i weithredu'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach.



9 Ymateb i heriau'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol ar gyfer pobl â sgiliau a phrofiad priodol gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff gofal cartref, gofalwyr maeth a chynhalwyr gwasanaeth lleoli oedolion.

14 Cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a'u hecsploetio.

20 Gweithredu strategaeth Dai Leol pum mlynedd i fynd i'r afael ag angen tai, i leihau digartrefedd ac i gynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da sydd ar gael.

5 Datblygu Strategaeth Gymunedol newydd i wella ansawdd bywyd tenantiaid ystadau tai'r Cyngor i gynnwys mentrau gwrth-dlodi, cynhwysiant digidol a phrosiectau gardd/tyfu cymunedol.

10 Cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Brifysgol a sefydlu Cynghrair y Fro i ddatblygu a gweithredu mwy o fodolau gofal integredig.

15 Cyflawni'r camau gweithredu a geir yng nghynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gyfer 2022/23 i wella iechyd a lles, i ddiogelu'r rheiny sy'n agored i niwed, i ddiogelu'r amgylchedd, i gefnogi'r economi leol ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

21 Gweithio gyda phartneriaid i leihau digartrefedd a gweithredu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

AMCAN 4

YN 2022-23 BYDDWN YN:

PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Gweithio i leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i'n dilyn yn rhan o'r gwaith o leihau'r effaith negyddol y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill a'u grymuso i gynnal cyfleusterau lleol gan gynnwys tai bach cyhoeddus, llyfrgelloedd, parciau, ardaloedd chwarae a chanolfannau cymunedol
- Diogelu, cadw a, lle bo'n bosibl, gwella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n trefnadaeth ddiwylliannol
- Gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn lân, yn ddeniadol ac yn cael ei reoli'n dda
- Gweithio gyda'r gymuned, datblygwyr ac eraill i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy a bod datblygwyr yn lliniaru eu heffeithiau, yn integreiddio â chymunedau lleol ac yn darparu'r seilwaith angenrheidiol
- Darparu gwasanaethau rheoli gwastraff effeithiol a gweithio gyda'n trigolion, ein partneriaid a busnesau i leihau gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd
- Lleihau llygredd gan gydnabod yr effaith andwyol y gallai ei gael ar yr amgylchedd ac ar les pobl
- Gweithio i leihau effaith erydu, llyfogydd a llygredd ar ein hardaloedd arfordirol a chrysiâu dŵr

“ Rydym yn Gyngor sy'n pennu safonau uchelgeisiol i'n hunain, ein partneriaid a'n cymunedau. Deallwn sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol, cymunedol a byd-eang ac rydym wedi ymrwmo i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd i sicrhau y gallwn fod yn falch o'r etifeddiaeth a adawn i genedlaethau'r dyfodol. ”



1 Gweithredu Prosiect Sero, ein Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd, gan ganolbwyntio gwaith ar ein hadeiladau, ein defnydd o ynni, ein trafndiaeth, ein tir a'n bwyd a gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau ein hallyriadau carbon ac ymgysylltu â'r gymuned.

6 Annog a chefnogi newidiadau cynaliadwy i'r ffordd y mae pobl yn teithio drwy gynyddu cyfleoedd i **deithio'n llesol** (cerdded a beicio) drwy weithredu'r Map Rhwydwaith Integredig newydd a rhaglenni cynnal a chadw ac atgyweirio effeithiol ar gyfer ein ffyrdd a'n palmentydd a'n seilwaith priffyrdd.



2 Cyhoeddi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a gweithio gyda'n partneriaid gan gynnwys y **Bartneriaeth Natur Leol** i ymateb i'r argyfwng natur, gweithredu rhaglen plannu coed uchelgeisiol, cyflwyno'r Cynllun Bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

3 Gwella adeiladau ysgol sy'n bodoli eisoes a chreu adeiladau newydd ar gyfer Sain Nicolas, St Baruc, y Ganolfan Dysgu a Lles, Ysgol y Deri, ac ysgolion cynradd yn y Bont-faen, lle bo hynny'n bosibl gan eu gwneud yn **adeiladau carbon-isel a di-garbon yn ddefnyddiol** i'w gweithredu.

4 Adeiladu cartrefi Cyngor newydd sydd bron yn **ddi-garbon**, neu sydd o leiaf â sgôr A gan ddefnyddio Dulliau Modern o Adeiladu a datblygu Rhaglenni Ôl-ffitio wedi'u Hoptimeiddio i fwrw targedau lleihau carbon ar gyfer stoc dai bresennol y Cyngor ac i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

5 Sefydlu rhwydwaith o fannau gwefru **Cerbydau Trydan** hygyrch lleol a gwneud gwaith i sicrhau bod gan y Cyngor **fflyd cerbydau mwy cynaliadwy** gan gynnwys defnyddio cerbydau trydan a hybrid a cherbydau a gaiff eu pweru mewn ffyrdd eraill.

7 Gweithredu'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli **Perygl Llifogydd** ddiwygiedig gan gynnwys cynlluniau penodol ynghyd â Chynllun Rheoli Ymyl y Traeth a gwaith monitro'r arfordir.



8 Casglu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr **adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol** gan gynnwys galwad gyhoeddus am safleoedd ymgeisiol i'w datblygu ac ymgynghoriad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a pharatoi'r weledigaeth a'r amcanion/opsiynau twf a'r strategaeth a ffefrir.

9 Buddsoddi mewn addysg, trafndiaeth gynaliadwy, a chyfleusterau cymunedol o ganlyniad i negodi **Taliadau Adran 106** gan ddatblygwyr mewn ardaloedd lle mae gwaith datblygu wedi digwydd fel y nodir yn yr **Adroddiad Adran 106** blynyddol.

10 Adolygu a gweithredu opsiynau i sefydliadau cymunedol weithredu cyfleusterau fel meysydd chwaraeon, parciau, manau agored, rhandiroedd a chyfleusterau cyhoeddus yn rhan o **Raglen Drawsnewid y Cyngor**.


11 Yn unol â **Strategaeth Rheoli Gwastraff 2021/31**

Bro Morgannwg, gwella gwaith rheoli gwastraff mewn sawl ffordd gan gynnwys cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r trefniadau ailgylchu newydd yn nwyrain y Fro, creu Cyfleuster Ailddefnyddio, cwblhau'r Ganolfan Adfer Adnoddau a Chanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yn yng ngorllewin y Fro.



12 Gweithio gyda grwpiau cymunedol i ddatblygu **strategaeth sbwriel a gorfodi** gan gydnabod rôl y gymuned o ran gwella ein hamgylchedd lleol.

13 Cynnal asesiadau ansawdd **aer** ac adolygu'r data i sicrhau bod amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn parhau i gael eu cyflawni.



CYFLAWNI A MONITRO'R CYNLLUN

Adlewyrchir camau gweithredu'r CCB yng Nghynlluniau Gwasanaeth y Cyngor sy'n dangos sut y bydd pob adran o'r Cyngor yn gweithio i gyfrannu at ein Hamcanion Lles. Mae targedau wedi'u pennu ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu hyn.

Caiff gwaith y Cyngor ar y Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n rheolaidd drwy asesu cynnydd yn erbyn ei weithredoedd a'i ddangosyddion perfformiad er mwyn galluogi cynghorwyr i graffu ar gynnydd a'i oruchwylio.

CYMRYD RHAN

Mae llawer o ffyrdd o ddylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor. Gallwch gymryd rhan trwy ymuno â'n panel dinasyddion, **Barn Bro Morgannwg**, a chymryd rhan yn ein hymgyngoriadau ar ein gwaith a gwaith ein partneriaid.

Mae ein Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac maent yn rhoi cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch wneud cais i Bwyllgor ystyried gwasanaeth neu fater drwy gwblhau **ffurflen**. Gallwch hefyd gofrestru i siarad mewn

Adroddir ar hyn i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet bob chwarter. Defnyddir Cynlluniau Gwasanaeth hefyd i ddatblygu Cynlluniau Tîm ac i lywio ein gwerthusiadau staff drwy'r broses #amdanafi.

Rydym yn cyhoeddi'r holl wybodaeth am ein Cynllun Corfforaethol, ein CCB a'n hadroddiadau perfformiad eraill ar ein gwefan **www.bromorgannwg.gov.uk**. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn ein swyddfeydd a'n llyfrgelloedd.

cyfarfod Pwyllgor Craffu drwy ddilyn y wybodaeth ar **wefan** y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am Bwyllgorau Craffu'r Cyngor a sut y gallwch gymryd rhan ar gael **yma**.

Rydym yn croesawu adborth am ein gwaith a gallwch gysylltu â ni yn:

Polisi a Gwasanaeth Trawsnewid Busnes, Cyngor Bro Morgannwg, y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri. CF63 4RU.

☎ **01446 700111**

✉ ebost: **improvements@valeofglamorgan.gov.uk**

Bioamrywiaeth - Mae bioamrywiaeth yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth enfawr o fywyd ar y Ddaear. Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at bob peth byw, gan gynnwys planhigion, bacteria, anifeiliaid a phobl.

Blaengynllun Bioamrywiaeth - Mae Blaengynllun Bioamrywiaeth yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella adnoddau naturiol i sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob gwasanaeth a'u bod yn themâu craidd wrth ddarparu gwasanaethau, gan ddod yn rhan annatod o'r prosesau gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r Cyngor.

Gofal Cartref - Yr ystod o wasanaethau a ddarperir i gefnogi unigolyn yn ei gartref ei hun.

Strategaeth Seilwaith Gwyrdd - Seilwaith Gwyrdd yw manau gwyrdd, pridd, llystyfiant a dŵr sy'n creu'r gwasanaethau ecosystem sy'n gwneud lleoedd yn well i fyw ynddynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, coed strydoedd, toeau a waliau gwyrdd, manau chwarae naturiol, gerddi bywyd gwyllt/natur, coridorau peillwyr, gwaith tirlunio, systemau draenio ac atebion rheoli ansawdd aer.

Cynllun Datblygu Lleol - Y Cynllun Datblygu Statudol mae'n rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru ei weithredu dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r Cynllun yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yn yr ardal.

Deddf Llywodraeth Leol - Nododd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (<https://business.senedd.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=26688.%20>) ddarpariaeth ar gyfer creu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, perfformiad a llywodraethu.

Partneriaeth Natur Leol - Mae Partneriaethau Natur Lleol yn grŵp partneriaeth traws-sector sy'n gweithredu ac yn rhoi cyngor a chymorth effeithiol i warchod, hyrwyddo a gwella natur ar lefel leol ac sydd hefyd yn cyfrannu at yr agenda genedlaethol ar gyfer adfer natur.

Carbon Sero-net - Mae Sero-net yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng swm y carbon a gynhyrchir a'r swm a dynnir o'r atmosffer. Rydym yn cyflawni sero-net pan nad yw'r swm a ychwanegwn yn fwy na'r swm a gymerir i ffwrdd.

Rhaglenni Ôl-ffitio wedi'u Hoptimeiddio - Rhaglen gan yr adran Tai sy'n defnyddio arian grant Llywodraeth Cymru i ehangu gwybodaeth a gwella gallu contractwyr lleol o ran gwasanaethau gwresogi gwyrdd, i ddatgarboneiddio'r farchnad gwresogi domestig ac i sicrhau sgôr darged TPY o A i gartrefi cynaliadwy.

Prosiect Sero - Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i argyfwng y newid yn yr hinsawdd, gan ddwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfluoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, i leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero-net erbyn 2030 ac i annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol.

RHESTR TERMAU

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Ein Bro - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Bro Morgannwg i weithio mewn partneriaeth er dyfodol gwell. <https://www.valepsb.wales/cy/About-Us/About-Us.aspx>

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol - Mae gan Ranbarth Caerdydd a Bro Morgannwg 2 Fwrdd Diogelu Rhanbarthol, un ar gyfer oedolion ac un ar gyfer plant. Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn bartneriaeth amlasiantaethol sy'n cynnwys sefydliadau statudol, annibynnol ac elusennol sy'n cydweithio i ddiogelu oedolion rhag cael eu cam-drin.

Bro Ddiogelach a Chynllun Gweithredu Bro Ddiogelach - Mae Bro Ddiogelach yn bartneriaeth amlasiantaethol sy'n gweithio ynghyd i greu amgylchedd diogelach i drigolion a gweithwyr Bro Morgannwg ac i'r rheiny sy'n ymweld â hi sydd heb drosedd, heb anhrefn a heb ofn trosedd. Mae Cynllun Gweithredu Bro Ddiogelach yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd y bartneriaeth yn eu cymryd i wneud Bro Morgannwg yn fwy diogel.

Adran 106 - Mae Adran 106 Deddf Cynllun Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ymrwymo i gytundeb sy'n gyfreithiol rwymol i sicrhau rhwymedigaethau cynllunio gyda thirfeddiannwr yn rhan o roi caniatâd cynllunio. Ceir mwy o wybodaeth am gytundebau Adran 106 yn y Fro **yma**. (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/Planning/Developer-Contributions-Section-106.aspx)

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn bartneriaeth rhwng Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r Gwasanaeth yn gwbl integredig dan un strwythur rheoli ar gyfer swyddogaethau iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a safonau masnach gyda threfniadau llywodraethu a rennir gan sicrhau y caiff pob aelod etholedig ei gynnwys yn llawn. <https://www.srs.wales/cy/About-SRS-Wales.aspx>

Model sy'n Seiliedig ar Gryfderau - Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn broses gydweithredol rhwng yr unigolyn a gefnogir gan wasanaethau a'r rheiny sy'n ei gefnogi sy'n eu galluogi i gydweithio i bennu canlyniad sy'n defnyddio cryfderau ac asedau'r unigolyn.

Cynghrair y Fro - Mae Cynghrair y Fro yn brosiect sydd â'r nod o ddod â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd at ei gilydd i roi cymorth mwy di-dor i'n trigolion

Eich Dewis Chi - Mae Eich Dewis Chi'n fodel comisiynu gofal cartref sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n rhoi llawer mwy o ddewis a rheolaeth i'n defnyddwyr gwasanaeth.

Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif - Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol. https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/schools_in_the_vale/21st-Century-Schools/21st-Century-Schools.aspx

Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach

Am ragor o wybodaeth...

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

 www.bromorgannwg.gov.uk